Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council







Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg

2023-2028

# **Adroddiad blynyddol 2024-2025**

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

www.npt.gov.uk/cymraeg

## Cynnwys

Cyflwyniad…………………………………………………………………………………………..………..……….. 2

Datblygiadau yn ystod 2024-2025…………………………………………………………………..……….…..…………. 3-4

Mentrau i Gyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2024-2025………………………........................................... 5

Cynnydd o ran Cynllun Gweithredu 2024-2025……………………………………………………………..……………. 6

Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg.....……………………………………………………. 6

Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg……………………………………………………..…………….. 9

Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun................……………………………..…. 13

Os bydd angen yr adroddiad hwn arnoch chi mewn print mwy neu fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 07805 771506 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

# Cyflwyniad

Rydyn ni'n falch o gyflwyno ail adroddiad blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025 ac yn amlygu ein cynnydd o ran gweithredu camau'r strategaeth oedd â dyddiadau targed yn 2024 a 2025.

Ar 12 Gorffennaf 2023, mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028 ar gyfer Castell-nedd Port Talbot gan y Cyngor.

Mae'r strategaeth yn amlinellu sut rydyn ni'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach ohoni er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gweld a'i chlywed yn fwy amlwg yn ein cymunedau lleol erbyn 2028.

Mae hyn yn cyd-fynd â themâu strategol Strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru, ac yn amlinellu ein dull o fynd ati i wneud y canlynol:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Gwella defnydd o'r Gymraeg.
- Creu amodau cynhaliol (o ran seilwaith a chyd-destun) yn y fwrdeistref sirol.

Yn ogystal â hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau, rydym hefyd yn ceisio annog defnydd o'r iaith ar draws gweithlu Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn llawer o feysydd, nid yw rhai camau wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig, a hynny oherwydd amrywiol ffactorau.

*Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell a ddefnyddir i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ôl Cyfrifiad 2021, gall tua 13.5% o'r bobl dros 3 oed yn CnPT siarad Cymraeg – gostyngiad ers 2011 pan oedd y ganran yn 15.3%. Ffigur Cymru gyfan oedd 538,300 (17.8%).*

*Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn darparu canlyniadau'n amlach, ac felly mae'n ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer edrych ar dueddiadau o ran y Gymraeg rhwng Cyfrifiadau.*

*Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2024, roedd 37,500 o drigolion 3 oed a throsodd CNPT yn gallu siarad Cymraeg (27.4%).*

*Ar ben hynny, mae data o'n Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel y Disgybl (PLASC) yn dangos y targed a ragwelir o ran disgyblion mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn 2025, sef 17.7%, neu 3,588 allan o gyfanswm o 20,529.*

Yn achos unrhyw dargedau penodol na lwyddwyd i'w cyrraedd, ein nod yw cyflawni'r rhain o fewn y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau bod y cynllun yn dychwelyd at yr amserlen wreiddiol.

# Datblygiadau yn ystod 2024-2025

## Fideos ynghylch manteision addysg cyfrwng Cymraeg





Comisiynwyd cyfres o 6 fideo proffesiynol, 'Taith at Ddwy Iaith', gan Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y cyngor, a'u lansio yn ystod y flwyddyn.

Mae'r fideos yn canolbwyntio ar y llwybrau cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod cyn-enedigol hyd at addysg bellach (addysg uwch a llwybrau galwedigaethol), ac yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg.

## fyCnPT – Platfform Cyfrif Newydd i Drigolion

Cafodd ein platfform cyfrif i drigolion, fyCnPT, ei lansio yn ystod y flwyddyn, ac mae'n gwbl ddwyieithog. Caiff dewis iaith ei gasglu wrth gofrestru, a defnyddir yr iaith honno ar gyfer pob cyfathrebu, gan gynnwys hysbysiadau ynghylch diwrnod biniau. Mae'r platfform yn cynnig profiad dwyieithog di-fwlch, gan fod ein dylunydd cynnwys Cymraeg yn rhan o dîm y prosiect, er mwyn sicrhau bod yr holl elfennau a chynnwys newydd yn bodloni gofynion defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg ac yn cyfrannu at 'gynnig gweithredol' y cyngor.




Datblygwyd cyfleusterau newydd "Dweud am" a "Cysylltu â Ni" hefyd yn ddwyieithog, fel bod trigolion yn gallu cymryd camau eu hunain yn eu dewis iaith.

## Capasiti ac Arbenigedd Ychwanegol

Defnyddiwyd arian grant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystod y flwyddyn i gefnogi Menter Iaith CnPT i gyflogi Swyddog Cymuned ychwanegol i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn ysgolion.

## Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025




Yn ystod y flwyddyn bu pawb yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym mis Mai 2025, gan fod y cyngor a'i bartneriaid yn awyddus i wneud yn fawr o'r cyfleoedd neilltuol i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Cyhoeddwyd cyfathrebu allanol ar sianeli'r Cyngor, ac anogwyd staff Cyngor CnPT i feithrin eu sgiliau Cymraeg, gyda golwg ar wirfoddoli yn yr Urdd er mwyn hyrwyddo'r fwrdeistref sirol a'r ymgyrchoedd sydd ar droed o ran y Gymraeg.

## Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg




**Diwrnod Shwmae Su'mae** – fe wnaethon ni nodi Diwrnod Shwmae Su'mae ar 15 Hydref, 2024, i annog pawb i ddechrau sgyrsiau trwy ddweud "shwmae," "su'mae," neu "shwdi!" Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn helpu i amlygu'r ffaith bod y Gymraeg i bawb – yn siaradwyr rhugl, yn ddysgwyr, ac yn rhai sydd efallai'n teimlo braidd yn swil ynghylch defnyddio Cymraeg.

**Defnyddia dy Gymraeg –** ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethon ni gefnogi'r fenter Defnyddia dy Gymraeg ag ymgyrch fewnol i amlygu gwasanaethau'r cyngor y mae modd eu cyrchu yn Gymraeg, yn ogystal â chyfeirio pobl ymlaen at ein tudalen "Dysgu a Defnyddio'r Gymraeg" ar y we.



# Mentrau i Gyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2024-2025

**Dysgu Cymraeg –** Rydyn ni'n cydnabod bod cefnogi ac annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gwaith yn rhan allweddol o'n hymdrechion cydymffurfio. Yn unol â hyn, fe ddalion ni ati i sicrhau bod cyflogeion yn cwblhau'r cwrs eDdysgu gorfodol ar yr iaith Gymraeg yn CnPT. Erbyn 31 Mawrth 2025, roedd 2,859 o aelodau staff wedi cwblhau'r cwrs, sy'n nodi cynnydd o 1,179 ers diwedd y flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, cyflwynwyd nifer o fentrau a chyfleoedd hyfforddi newydd i gyflogeion y cyngor ar hyd y flwyddyn, er enghraifft, cyrsiau Hyder-ish a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.



Daliwyd ati i gynnal gweithgareddau ar hyd y flwyddyn i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith cyflogeion Cyngor CnPT:

**Dathliad Dydd Gŵyl Dewi** – Cynhaliodd Grŵp Swyddogion y Gymraeg nifer o ddigwyddiadau anffurfiol i'r staff ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi yn y tri phrif adeilad dinesig (Y Ceiau, Canolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot). Cafodd y digwyddiadau hyn dderbyniad da, ac roedden nhw'n gyfleoedd i gynyddu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg a chyfeirio pobl ymlaen at gyfleoedd i ddefnyddio a gwella sgiliau Cymraeg.



**Hyder-ish** – Cychwynnodd cwrs chwe-wythnos "Hyder-ish" i gyflogeion Cyngor CnPT ym mis Mawrth 2025, dan ofal Menter Iaith CnPT. Nod y cwrs amser cinio oedd helpu siaradwyr Cymraeg i feithrin hyder yn eu sgiliau iaith trwy roi cyfle iddyn nhw ymarfer yn anffurfiol trwy gwblhau tasgau diddorol. Roedd 5 yn y garfan hon o staff. Mae bwriad i gynnal rhagor o gyrsiau mewn gwahanol adeiladau dinesig, a bydd swyddogion yn archwilio dichonoldeb gwneud y rhain yn hybrid, fel bod mwy o hyblygrwydd i'w mynychu.




**Cyflwyniadau Dwyieithog yng nghylchlythyron cyflogeion Cyngor CnPT** – ym mis Rhagfyr 2024, am y tro cyntaf, dechreuwyd cylchdroi'r cyflwyniad i gylchlythyron wythnosol cyflogeion Cyngor CnPT, "The Sway" ac "In the Loop", ymhlith y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Yn sgîl hynny, ymrwymodd yr uwch-arweinwyr hynny i gyhoeddi eu cyflwyniadau'n ddwyieithog.

Hefyd ailgyflwynwyd nodweddion rheolaidd 'Geiriau Cymraeg yr wythnos'. Lle roedd modd, cysylltwyd y rheiny â phynciau penodol, e.e. geiriau cysylltiedig â rygbi adeg Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, geiriau Diwrnod Santes Dwynwen, geiriau cysylltiedig â'r Nadolig, geiriau cysylltiedig â'r gyllideb etc.

# Cynnydd o ran Cynllun Gweithredu 2024-2025

## Thema Strategol 1:  Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg

### Maes gwaith: Cefnogi gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

**Cam Gweithredu: 1.1 Hyrwyddo'r grŵp Facebook 'Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg' ymhlith yr holl ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg a'u teuluoedd**

**Cynnydd 2024-2025:**

Aeth Menter Iaith CnPT i nifer o ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn lle buon nhw'n hyrwyddo'r grŵp Facebook Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg ymhlith rhieni. Roedd y rhain yn cynnwys Diwrnod Hwyl i'r Teulu CnPT a diwrnod hwyl y Gymraeg. Mae Menter Iaith CnPT hefyd yn mynd i ddiwrnodau agored mewn Ysgolion Cynradd, lle maen nhw'n hyrwyddo'r grŵp ymhlith rhieni. Daliwyd ati i ychwanegu adnoddau newydd at y grŵp i rieni eu defnyddio gartref.

Defnyddiwyd arian grant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystod y flwyddyn i gefnogi Menter Iaith CnPT i gyflogi swyddog ychwanegol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn ysgolion.

Daliodd Menter Iaith CnPT ati i hwyluso a/neu drefnu digwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys 'Caffi Cymraeg' mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac ystod o gyrsiau e.e. mae prosiect 'Clecs' yn cael ei gynnal ym Mhontardawe i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.

**Cam Gweithredu: 1.2 Diweddaru a hyrwyddo'r llyfryn 'Manteision Dwyieithrwydd' ymhlith teuluoedd**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae'r llyfryn wedi cael ei ddiweddaru o fewn y 12 mis diwethaf, ac mae rhagor o gopïau wedi cael eu hargraffu, fel bod Menter Iaith CnPT yn eu dosbarthu mewn digwyddiadau i rieni sydd eu hangen. Mae fersiwn ddigidol o'r llyfryn yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

**Cam Gweithredu: 1.3 Hyrwyddo dwyieithrwydd ymhlith teuluoedd sy'n disgwyl baban**

**Cynnydd 2024-2025:**

Aeth Cyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y cyngor ati i gomisiynu a lansio cyfres o 6 fideo hyrwyddo 'Taith at Ddwy Iaith', sy'n sôn am fanteision dwyieithrwydd a phob agwedd ar addysg cyfrwng Cymraeg i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae'r fideos yn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn canolbwyntio ar lwybrau cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod cyn-enedigol hyd at addysg bellach. Fe'u lluniwyd gan ddefnyddio cyllid sydd ar gael i dreialu ymyriadau mewn ymateb i ganlyniadau'r dirywiad ieithyddol a welwyd yng Nghyfrifiad 2021 yn y mannau a fu'n gadarnleoedd diwydiannol Cymoedd y Gorllewin, ac i gyfrannu at ymrwymiad rhif 36 yn y Cytundeb Cydweithio, sef "sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei siarad mewn mwy o leoedd, gan gynnwys gweithleoedd, ar draws y wlad".

Mae Menter Iaith CnPT yn parhau i hybu addysg cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â'r fideos uchod a gomisiynwyd.

## Maes gwaith: Trosglwyddiad iaith yn y cartref

**Cam Gweithredu: 1.4 Nodi argaeledd (wyneb yn wyneb ac ar-lein), cost a lleoliad cyrsiau Cymraeg a'u hyrwyddo ymhlith y trigolion**

**Cynnydd 2024-2025:**

Cyfeiriodd Menter Iaith CnPT rieni a phobl yn y gymuned at wefan ABA Dysgu Cymraeg a darparu manylion cyswllt ar eu cyfer.

Buon nhw hefyd yn cyfeirio pobl at y cwrs Clwb Cwtsh mae'r Mudiad Meithrin yn ei ddarparu. Rhaglen rhagflas yw Clwb Cwtsh, gyda ffocws ar siarad Cymraeg â phlant ifanc. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer darpar rieni, rhieni/gofalwyr ac aelodau estynedig o'r teulu, a does dim angen bod gan y rhai sy'n mynd iddo unrhyw sgiliau Cymraeg.

**Cam Gweithredu: 1.5 Datblygu a hyrwyddo sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith y trigolion**

**Cynnydd 2024-2025:**

Bu Menter Iaith CnPT yn mynychu diwrnodau agored mewn ysgolion cynradd Cymraeg, gan roi cyflwyniad ar fanteision addysg Gymraeg. Buon nhw'n cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i ddisgyblion a staff yn yr ysgolion uwchradd.

Cynhaliodd Menter Iaith CnPT raglen o ddigwyddiadau yn ystod gwyliau'r ysgol yn Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle i siarad â rhieni am fanteision addysg Gymraeg.

Aeth Menter Iaith CnPT i ffair swyddi yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot a siarad am fanteision y Gymraeg mewn cyflogaeth. Bu ganddyn nhw hefyd stondin wybodaeth mewn cynadleddau, e.e. cynhadledd i brifathrawon.

Bu Menter Iaith CnPT yn gweithio gyda'r ysgolion uwchradd ail iaith yn yr awdurdod i'w helpu i gyflawni eu dyfarniadau Siarter Iaith. Rhagwelir y bydd cynnydd o ran y dyfarniadau hyn yn derbyn sylw yn Adroddiad Blynyddol 2025-2026.

## Maes gwaith: Cefnogi pobl i ddysgu/siarad Cymraeg

**Cam Gweithredu: 1.6 Darparu cyfleoedd i staff y Cyngor gyrchu cyrsiau dysgu/gwella Cymraeg ar lefelau priodol**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cydnabod bod cefnogi ac annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gwaith yn rhan allweddol o ymdrechion cydymffurfio. Yn unol â hyn, daliwyd ati i sicrhau bod cyflogeion yn cwblhau'r cwrs eDdysgu gorfodol ar y Gymraeg yn CnPT. Erbyn 31 Mawrth 2025, roedd 2,859 o aelodau staff wedi cwblhau'r cwrs, oedd yn nodi cynnydd o 1,179 ers diwedd y flwyddyn flaenorol.

Bu Menter Iaith CnPT yn hwyluso sesiynau Hyder-ish i staff y cyngor sy'n siarad Cymraeg er mwyn gwella'u hyder, a'u galluogi i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith ac yn y gymuned.

Cynhaliodd Grŵp Swyddogion y Gymraeg nifer o ddigwyddiadau anffurfiol i'r staff ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ar draws y tri phrif adeilad dinesig (Y Ceiau, Canolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot). Cafodd y digwyddiadau hyn dderbyniad da gan y staff, ac roedden nhw'n gyfleoedd i gynyddu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.

**Cam Gweithredu: 1.7 Creu a hyrwyddo adnoddau Cymraeg i deuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol**

**Cynnydd 2024-2025:**

Bu Menter Iaith CnPT yn creu ac yn rhannu mwy o adnoddau ar y grŵp Facebook Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg. Crëwyd pecyn o weithgareddau i'w defnyddio gyda dysgwyr Cymraeg mewn digwyddiadau cymunedol, er enghraifft yn y Cafe Cymraeg.

Creodd Menter Iaith CnPT daflen newydd yn hyrwyddo Apiau Cymraeg a allai fod yn ddefnyddiol i deuluoedd, plant, gweithwyr proffesiynol a dysgwyr. Caiff y daflen hon ei diweddaru'n rheolaidd i gynnwys apiau newydd. Ar ben hynny, mae sianel ar Spotify gyda nifer o wahanol restrau cerddoriaeth Gymraeg o wahanol genres.

Crëwyd pecynnau adnoddau i'w defnyddio yng nghlybiau ieuenctid CnPT. Darparwyd y pecynnau hyn i'r holl glybiau ieuenctid yn yr ardal. Yna bydd y clybiau ieuenctid yn gofyn am weithgareddau penodol ar hyd y flwyddyn, a gallwn ddarparu'r rhain. Datblygwyd sesiwn hefyd ar gyfer ysgolion cynradd ail iaith, y mae modd eu haddasu ar gyfer themâu penodol.

Datblygwyd fideos cyfeiriadol sy'n mapio'r llwybr trwy addysg cyfrwng Cymraeg. Mae tudalen addysg Gymraeg gwefan CnPT yn cael ei hailddatblygu ar hyn o bryd i gynnwys gwybodaeth am lwybrau ac adnoddau, a rhagwelir yr adroddir ymhellach ar hyn yn Adroddiad Blynyddol 2025-2026.

**Cam Gweithredu: 1.8 Datblygu/cyfeirio ymlaen at gyrsiau priodol a chefnogaeth i athrawon a staff nad ydynt yn addysgu sy'n dysgu Cymraeg**

**Cynnydd 2024-2025:**

Lansiwyd System Rheoli Dysgu newydd y cyngor, Thinqi, ym mis Rhagfyr 2024, ac mae ar gael i gyflogeion ar draws y cyngor, gan gynnwys Ysgolion CnPT. Siop un stop ar gyfer anghenion hyfforddi cyflogeion yw Thinqi, ac mae'n caniatáu iddyn nhw gwblhau eDdysgu, archebu eu cyrsiau eu hunain, a gweld cofnodion hyfforddi. Mae'r platfform yn ddwyieithog, a gall cyflogeion ddewis iaith neu symud yn ôl ac ymlaen o'r naill iaith i'r llall wrth ymwneud â'r platfform. Mae hefyd yn cynnwys cyrsiau Cymraeg:

- Hyfforddiant gorfodol ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg SCW (sy'n cael ei ddarparu gan Gonsortiwm Dysgu Cymru) – mae'r modiwl hwn yn rhoi i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ofalu am yr henoed, ymwybyddiaeth o pam mae sgiliau Cymraeg a gweithio'n ddwyieithog yn bwysig. Mae hefyd yn cyfeirio ymlaen at adnoddau cefnogi pellach.
- Hyfforddiant Safonau'r Gymraeg (Aelodau) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (sy'n cael ei ddarparu gan Gonsortiwm Dysgu Cymru).

## Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

### Maes gwaith: Cefnogi a hybu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol 2022-2032

**Cam Gweithredu: 2.1 Archwilio cyfleoedd gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i gynyddu ymwybyddiaeth o lyfrau/ddeunyddiau Cymraeg ymhlith y trigolion**

**Cynnydd 2024-2025:**

Benthyciwyd 8,012 o eitemau Cymraeg gan Wasanaeth Llyfrgelloedd CnPT yn 2024/25.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi:

- Ychwanegu at ei gasgliad o lyfrau grwpiau darllen i oedolion sy'n medru'r Gymraeg
- Cyflwyno digwyddiadau yn Gymraeg fel rhan o Ŵyl y Plant
- Darparu gweithgareddau yn Gymraeg i blant yn ystod gwyliau'r ysgol, mewn partneriaeth â Menter Iaith CnPT
- Cyflwyno rhaglen caneuon a rhigymau Cymraeg i blant y blynyddoedd cynnar

Hyrwyddo llyfrau Cymraeg fel rhan o arddangosfeydd rheolaidd llyfrgelloedd

Cynhaliwyd 15 o ddigwyddiadau Cymraeg yn Llyfrgelloedd CnPT yn ystod 2024-25, gyda 238 o bobl yn bresennol.

**Cam Gweithredu: 2.2 Archwilio cyfleoedd i gynyddu gwelededd y Gymraeg yn yr holl gyfleusterau hamdden a diwylliant**

**Cynnydd 2024-2025:**

Sefydlwyd y Tîm Marchnata Masnachol newydd i hyrwyddo ein parciau gwledig, ein theatrau, a lleoliad priodasau'r Orendy. Mae'r tîm yn darparu deunydd cwbl ddwyieithog, ac yn ei hyrwyddo ar draws ymgyrchoedd marchnata integredig.

Daliwyd ati i baratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym Mharc Gwledig Margam ym mis Mai 2025, gan gynnwys presenoldeb 'ar y safle' gan Gyngor CnPT ym Mhafiliwn CnPT, ac ystod o weithgareddau marchnata a chyfathrebu yn ystod y cyfnod yn arwain at y digwyddiad, er mwyn annog cyfranogiad. Dyrannwyd cyllid trwy'r Gronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau, a ariannwyd gan SPF, er mwyn gwella ymgysylltiad yr Urdd â phobl ifanc yn CnPT, gan gynnwys digwyddiadau dathlu cyn y digwyddiad, a dau swyddog datblygu yn gweithio mewn ysgolion yn CnPT.

Lansiwyd Dathliad Canmlwyddiant Richard Burton ym mis Chwefror 2025, gyda rhaglen gwbl ddwyieithog o weithgareddau, oedd yn cynnwys Llwybrau newydd Richard Burton ym Mhontrhydyfen a Thaibach a chyfres o deithiau tywys, arddangosfeydd, sgyrsiau a dathliadau eraill.

Datblygodd Menter Iaith CnPT raglen lwyddiannus iawn o ddigwyddiadau gyda Chanolfan y Celfyddydau ym Mhontardawe, a daeth llawer o bobl iddi, felly maen nhw'n awyddus i greu partneriaeth debyg gyda lleoliadau celfyddydau eraill ar draws y fwrdeistref sirol. Hefyd cynhaliwyd digwyddiadau Cymraeg fel rhan o Ŵyl Llenyddiaeth Castell-nedd, a nifer o ddigwyddiadau cysylltiedig Eisteddfod yr Urdd, y buont yn eu trefnu a'u cefnogi.

Cynhaliwyd wyth digwyddiad Cymraeg yng Nghanolfan y Celfyddydau, Pontardawe, yn 2024-2025, a bu cyfanswm o 1,685 yn mynd iddynt.

**Cam Gweithredu: 2.3 Datblygu ail Glwb Ieuenctid Cymraeg mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol yn Nhai'rgwaith**

**Cynnydd 2024-2025:**

Bu'r bartneriaeth rhwng Menter Iaith CnPT a Gwasanaeth Ieuenctid CnPT yn llwyddiannus iawn. Maen nhw wedi mynd i bob clwb ieuenctid yn y fwrdeistref sirol i ddarparu sesiynau i bobl ifanc yn Gymraeg. Mae'r rhain wedi cynnwys disgos distaw a sesiynau bingo. Bellach maen nhw'n cynnal dau glwb ieuenctid Cymraeg yn y fwrdeistref sirol – mae nifer dda yn dod i'r rhain. Yn ystod tymor yr hydref, bu'r cyflwynydd radio lleol, Steffan Crocker, yn ymweld â thri chlwb ieuenctid yn CnPT i gynllunio a recordio Podlediadau gyda phobl ifanc ynghylch iaith a diwylliant Cymru. Fe wnaeth y bobl ifanc ymgysylltu'n frwd â'r sesiynau hynny.

Roedd cyfle i bobl ifanc fynd i Langrannog yn ystod hanner tymor mis Hydref. Cawson nhw eu dewis oherwydd eu bod wedi cwblhau eu hachrediad yn iaith a diwylliant Cymru. Roedd hwn yn gyfle iddyn nhw glywed y Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol y tu allan i'r dosbarth, profiad na fydd y mwyafrif ohonynt wedi'i gael o'r blaen.

Bu Menter Iaith CnPT a Gwasanaethau Ieuenctid CNPT hefyd yn bresennol mewn llawer o ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn, yn y gymuned ac mewn ysgolion, gyda deunydd hyrwyddo a gweithgareddau Cymraeg. Fe wnaethon nhw gynnal clwb Cymraeg gyda thri o'r ysgolion uwchradd ail iaith, fel bod y bobl ifanc yn cael cyfle i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn cyd-destun mwy cymdeithasol.

**Cam Gweithredu: 2.4 Archwilio gyda phlant a phobl ifanc sut mae modd defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun mwy cymdeithasol.**

**Cynnydd 2024-2025:**

Cyflwynodd Menter Iaith CnPT raglen o weithgareddau allgyrsiol i blant mewn ysgolion Cymraeg yn ardaloedd Cwm Tawe/Aman Tawe. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o weithdai ar ôl ysgol ac ar y penwythnos, oedd yn rhoi cyfle i'r mynychwyr barhau i gymdeithasu yn Gymraeg tu allan i'r dosbarth. Mae'r clybiau ieuenctid Cymraeg yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu yn Gymraeg a gweld y Gymraeg fel iaith gymunedol. Roedd eu rhaglenni yn ystod gwyliau'r ysgol yn gyfle i blant a phobl ifanc barhau i ddefnyddio'u Cymraeg yn ystod y gwyliau, ac roedd clybiau cinio mewn ysgolion ail iaith yn gyfle i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol.

Mae Menter Iaith CnPT yn cynnal rhaglen o foreau coffi Cymraeg ar draws CnPT ar gyfer dysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl. Hysbysebir y rhain trwy Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe.

**Cam Gweithredu: 2.5 Gweithio gyda cherddorion lleol i ddarparu sesiynau creadigol ar gyfer pobl ifanc – archwilio teithiau personol ym myd cerddoriaeth Gymreig, etc.**

**Cynnydd 2024-2025:**

Cynhaliodd Menter Iaith CnPT sesiynau iwcalele yn Gymraeg ym Mhontardawe, gyda'r nod o ffurfio band iwcalele Cymraeg yn yr ardal.

## Maes gwaith: Ehangu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle etc

**Cam Gweithredu: 2.6 Nodi a hyrwyddo cyfleoedd amgen ar gyfer hyfforddiant sgiliau iaith ymhlith staff y Cyngor**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae ein rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant yn cyfeirio cyflogeion at amrywiol opsiynau o ran hyfforddiant Cymraeg ac offer cefnogi, gan gynnwys y canllaw 'Help i ddewis cwrs' ac apiau symudol, podlediadau, cerddoriaeth, teledu ac adnoddau i'w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc.

Lansiwyd System Rheoli Dysgu newydd y cyngor, Thinqi, ym mis Rhagfyr 2024. Siop un stop ar gyfer anghenion hyfforddi cyflogeion yw Thinqi, ac mae'n caniatáu iddyn nhw gwblhau eDdysgu, archebu eu cyrsiau eu hunain, a gweld cofnodion hyfforddi. Mae'r platfform yn ddwyieithog, a gall cyflogeion ddewis iaith neu symud yn ôl ac ymlaen o'r naill iaith i'r llall wrth ymwneud â'r platfform. Mae hefyd yn cynnwys cyrsiau Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y sesiwn hyfforddiant sefydlu corfforaethol i gyflogeion newydd hefyd ei hadolygu a'i diweddaru (i'w defnyddio o ddechrau blwyddyn ariannol 2025-26). Gwnaed y sleidiau ar gyfer yr hyfforddiant yn gwbl ddwyieithog, a chryfhawyd

elfen Gymraeg y sefydlu. Yn wreiddiol roedd yn cynnwys dau sleid o wybodaeth sylfaenol am y Safonau a'r hyn maen nhw'n ei gwmpasu, ynghyd â gwybodaeth am ble gall staff gael hyd i ragor o wybodaeth a chefnogaeth. Mae'r fersiwn newydd yn cynnwys 11 o sleidiau ar iaith a diwylliant sy'n cwmpasu'r canlynol:

- hanes yr iaith Gymraeg yn gryno (gan gynnwys y 'Welsh Not'; Brad y Llyfrau Gleision; Cymraeg 2050)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Safonau'r Gymraeg (beth, pam a sut)
- cefnogaeth i staff yn Gymraeg; a
- rhagor o wybodaeth ac arweiniad

Lansiwyd cwrs Hyder-ish chwe wythnos i gyflogeion Cyngor CnPT ym mis Mawrth 2025. Dan arweiniad Menter Iaith CnPT, y nod oedd meithrin hyder i siarad Cymraeg trwy ymarfer mewn ffordd anffurfiol wrth gyflawni tasgau difyr. Cofrestrodd cyfanswm o 5 aelod o staff ar gyfer y garfan hon. Wrth symud ymlaen, mae bwriad i gynnal rhagor o gyrsiau mewn gwahanol adeiladau dinesig, o bosib ar ffurf digwyddiadau hybrid, fel bod gan staff fwy o hyblygrwydd o ran presenoldeb.

Yn 2024-25 (1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025):

- Ymrestrodd 10 o ddysgwyr newydd ar amrywiol gyrsiau Cymraeg.
- Mae 7 dysgwr wedi cwblhau modiwlau hyfforddiant.
- Mae 3 dysgwr yn dal wedi ymrestru ac wedi cyrraedd cyfnodau cwblhau amrywiol.
- Ar 31 Mawrth 2025 roedd 2859 o staff wedi cwblhau'r cwrs eDdysgu gorfodol ar y Gymraeg yn CnPT (cynnydd o 1,179 yn ystod y flwyddyn ariannol)

## Cam Gweithredu: 2.7 Hyrwyddo a gwreiddio Polisi'r Cyngor ar gyfer defnydd mewnol o'r Gymraeg

### Cynnydd 2024-2025:

Mae'r cyngor yn datblygu Polisi ar gyfer defnydd Mewnol o'r Gymraeg, ac ym mis Chwefror 2025, roedden ni'n falch o gael gwahoddiad i fod yn rhan o beilot cysylltiedig â'r gwaith hwn sydd yng ngofal swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y polisi'n cael ei gyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26.

## Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun

### Maes gwaith: Cynyddu gwelededd yr iaith ar draws yr ardal

**Cam Gweithredu: 3.1 Datblygu a gweithredu Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth newydd sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg, a gwelededd yr iaith yng Nghastell-nedd Port Talbot**

**Cynnydd 2024-2025:**

Sefydlwyd Tîm Marchnata Masnachol newydd y cyngor i hyrwyddo ein parciau gwledig, ein theatrau, a lleoliad priodasau'r Orendy. Mae'r tîm yn darparu deunydd cwbl ddwyieithog, ac yn ei hyrwyddo ar draws ymgyrchoedd marchnata integredig.

Cyrhaeddodd ymgyrch ddwyieithog Marchnata Cyrchfan Calon Ddramatig Cymru dros 24 miliwn o bobl.

Mae'r tîm yn parhau i greu cynnwys cwbl ddwyieithog ar gyfer ymgyrch 'Ni yw CnPT', sydd wedi'i bwriadu ar gyfer trigolion Castell-nedd Port Talbot. Nod yr ymgyrch yw newid canfyddiadau o CnPT, ond hefyd dathlu arwyr lleol ar draws sector y celfyddydau a'r sectorau cymunedol a gwirfoddol.

**Cam Gweithredu: 3.2 Hyrwyddo gwasanaeth cyfieithu a chyngor Cymraeg di-dâl Busnes Cymru, Helo Blod, ymhlith ein cymuned fusnes**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae Menter Iaith CnPT yn anfon cylchlythyr bob pythefnos sy'n cynnwys gwybodaeth am gynllun Helo Blod. Nhw hefyd gychwynnodd y cynllun 'hapus i siarad' sy'n hyrwyddo gallu busnesau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg.

**Cam Gweithredu: 3.3 Sicrhau bod y Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae'r Gymraeg ac ymdeimlad o le yn parhau i gael eu hintegreiddio â holl gamau gweithredu ac ymgyrchoedd marchnata'r Cynllun Rheoli Cyrchfan.

**Cam Gweithredu: 3.4 Gweithio gyda Chymdeithas Cymuned BME CnPT i archwilio ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru mewn cymunedau**

**Cynnydd 2024-2025:**

Ym mis Awst 2024, cefnogodd Cymdeithas BME CnPT gydweithwyr yng Nghyngor CnPT i gynllunio a chyflwyno digwyddiad dathlu Diwrnod Windrush. Cafodd holl bosteri a deunyddiau hyrwyddo'r digwyddiad hwn eu cyfieithu i'r Gymraeg, a gwahoddwyd côr o Gymru i ganu yn y digwyddiad. Dangoswyd ffilm a seiliwyd ar hanes Pobl Dduon Pobl Talbot, oedd yn amlygu sut roedd unigolion o genhedlaeth Windrush wedi symud i Bort Talbot a chofleidio diwylliant a thraddodiadau Cymru.

Bu'r Gymdeithas yn cefnogi cydweithwyr yng Nghyngor CnPT i gynllunio a chyflwyno digwyddiad 365 Hanes Pobl Dduon Cymru ym mis Hydref 2024. Cafodd yr holl ddeunyddiau hyrwyddo eu cyfieithu i'r Gymraeg, ac roedd hefyd fyrddau gwybodaeth a baneri wedi'u seilio ar Hanes Pobl Dduon Cymru, gyda ffocws ar y cyflawniadau a gyfrannodd at hanes Cymru'n gyffredinol, megis arwyr byd chwaraeon a champau eraill.

Mae'r Gymdeithas yn dal i archwilio ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn cymunedau.

Cynhaliwyd rhaglenni gwyliau ysgol Menter Iaith CnPT o weithgareddau a sesiynau canu ac arwyddo i fabanod yn llyfrgelloedd CnPT heb fod angen archebu, fel bod pawb yn gallu cyrchu'r sesiynau, ac i ddarparu mwy o gysylltiad â gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned.

**Cam Gweithredu: 3.5 Datblygu ffocws Cymraeg i ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' y Cyngor, gyda 'Dewch i Sgwrsio yn Gymraeg'**

**Cynnydd 2024-2025:**

Datblygwyd cynllun yr ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' yn barod i'w lansio yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym mis Mai 2025. Adroddir ar gynnydd yn Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2025-2026.

Un maes ffocws ar gyfer yr ymgyrch fydd hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Roedd 45 o ddigwyddiadau Cymraeg ar gronfa ddata digwyddiadau 'Beth sy Mlaen' y cyngor yn 2024-2025.

**Cam Gweithredu: 3.6 Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo fel rhan o system fonitro SPF prosiect Angor Busnes y Cyngor, h.y. casglu data allweddol, a nodi a oes angen cefnogaeth i roi arferion ar waith fel rhan o system CMS newydd Datblygu Economaidd.**

**Cynnydd 2024-2025:**

Gall pob un o ymgeiswyr y gronfa SPF ddewis cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac mae'r holl ddeunyddiau hyrwyddo a cheisiadau yn ddwyieithog.

**Cam Gweithredu: 3.7 Archwilio dichonoldeb creu cydlynydd hyrwyddo'r Gymraeg i weithio gyda gwasanaethau a phartneriaid**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i benodi, ac mae'n gweithio ar hyn o bryd ar y targedau a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Un o'i brif amcanion yw cydweithio'n agos â'r clwster cyfrwng Cymraeg i daclo lleoedd gwag yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg.

## Maes gwaith: Gwreiddio'r Gymraeg yn ein holl strategaethau a chynlluniau

**Cam Gweithredu: 3.8 Datblygu ein polisi sgiliau iaith mewnol a'i roi ar waith ar draws ein meysydd gwasanaeth**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae'r cyngor wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Polisi ar gyfer Defnydd Mewnol o'r Gymraeg, ac ym mis Chwefror 2025, roedden ni'n falch o gael ein gwahodd i fod yn rhan o beilot cysylltiedig â'r maes gwaith hwn sydd yng ngofal swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y polisi'n cael ei gyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26.

**Cam Gweithredu: 3.9 Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog wrth ddylunio a chymhwyso technolegau newydd**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae'r cynnydd wedi parhau o ran sicrhau bod y Gymraeg yn dal yn ganolog wrth ddylunio a chymhwyso cynnyrch digidol newydd sy'n wynebu'r cwsmer, a gyflwynir fel rhan o gynllun cyflawni digidol y cyngor.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaethau Digidol wedi adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd yn 2023-24, ac mae eu Dylunydd Cynnwys Cymraeg yn dal i chwarae rôl allweddol wrth wreiddio'r Gymraeg ar draws pob agwedd ar ein gwasanaethau digidol.

Datblygwyd y wefan gorfforaethol ar ei newydd wedd, www.npt.gov.uk, a ail-lansiwyd ym mis Rhagfyr 2024, gyda dylunio ar gyfer cynnwys Cymraeg o’r cychwyn cyntaf. Mae’r Dylunydd Cynnwys Cymraeg wedi bod yn rhan annatod o dîm y prosiect ar hyd yr amser, gan sicrhau bod y wefan yn diwallu anghenion ein defnyddwyr Cymraeg eu hiaith.

Datblygir yr holl gynnwys newydd yn ddwyieithog yn ddiofyn, ac rydym wedi cyflwyno ‘ysgrifennu mewn pâr’ gyda thimau gwasanaeth – megis gwasanaethau draenio – i sicrhau bod y cynnwys yn glir, yn gywir, ac yn hygyrch yn Gymraeg a Saesneg.

Mae’r cyngor yn defnyddio Silktide (platfform llywodraethiant ar y we sy’n helpu sefydliadau mawr i wella hygyrchedd, ansawdd cynnwys, a phrofiad defnyddwyr) i fonitro a gwella cydymffurfiaeth â safonau hygyrchedd y Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We (WCAG) ar gyfer cynnwys Cymraeg.

Mae’r gwaith hwn yn cefnogi ein strategaeth ddigidol ehangach a’n rhaglen ‘digidol drwy ddyluniad’, fel y nodir yn ein Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg. Mae’r strategaeth hon yn parhau i’n tywys wrth ddylunio gwasanaethau digidol sy’n rhoi’r defnyddiwr yn y canol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru, yn enwedig y rhai y mae’r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw.

Lansiwyd ein platfform cyfrifon trigolion, fyCnPT, yn gynharach eleni, ac mae’n gwbl ddwyieithog. Nodir dewis iaith wrth gofrestru, a chymhwysir hynny ar draws yr holl gyfathrebu, gan gynnwys hysbysiadau ynghylch casglu’r biniau. Mae’r platfform yn cynnig profiad dwyieithog di-fwlch, ac mae’r dylunydd cynnwys Cymraeg yn rhan o dîm y prosiect er mwyn sicrhau bod yr holl nodweddion a chynnwys newydd yn bodloni anghenion defnyddwyr Cymraeg eu hiaith. Datblygwyd ffurflenni ‘Dweud am’ a ‘Cysylltu â Ni’ newydd hefyd yn ddwyieithog, fel bod y trigolion yn gallu cymryd camau eu hunain yn eu dewis iaith.

Rydyn ni hefyd wedi dangos ein gallu i ddarparu cyfathrebu dwyieithog mewn amser go iawn adeg digwyddiadau critigol, megis Storm Darragh, lle cafodd y newyddion diweddaraf ei gyflwyno ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg ar draws ein sianeli digidol.

Ar ben hynny, rydyn ni’n parhau i gael ein tywys gan Safonau Gwasanaeth Digidol CnPT, sy’n ‘canolbwyntio ar lesiant pobl yng Nghymru yn awr ac i’r dyfodol’. Mae’r safonau hyn yn ategu ein hymrwymiad i gyflawni canlyniadau sydd o fudd i’n trigolion, yn hytrach na bodloni gofynion technegol yn unig.

Trwy wreiddio’r egwyddorion hyn yn nyluniad ein gwasanaethau, rydyn ni’n cefnogi Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg, ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau’n gynaliadwy i’r dyfodol.

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn dal yn rhan greiddiol o'n gofynion answyddogaethol ar gyfer pob datrysiad digidol newydd. Mae hyn yn sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi hefyd yn barod i gefnogi a chyflwyno gwasanaethau dwyieithog, gan ategu ein hymrwymiad i Gastell-nedd Port Talbot sy'n ddigidol gynhwysol.

**Cam Gweithredu: 3.10 Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu trefniadau coffáu pobl a digwyddiadau ym mholisi'r parth cyhoeddus**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mabwysiadwyd y Strategaeth Treftadaeth gan y Cabinet ar 17 Mai 2024, ac mae'r ddogfen lawn ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ffurf copi papur ac yn ddigidol. Ar ben hynny, mae dogfen sy'n Crynhoi'r Strategaeth Treftadaeth, lansiwyd ar 16 Gorffennaf 2024, ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ar ffurf copi papur ac yn ddigidol.

Mabwysiadwyd Cynllun Placiau Coffa Glas gan y Cyngor ar 24 Hydref 2024, ac mae holl ddogfennaeth y cynllun ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ar ffurf copi papur ac yn ddigidol. Gall ymgeiswyr gyflwyno'u henwebiadau yn Gymraeg a Saesneg. (Aeth y Cynllun yn fyw ar 16 Ionawr 2025).

Grantiau Treftadaeth Gymunedol o fis Ebrill 2024 tan fis Mawrth 2025. Cynhyrchwyd yr holl ddeunyddiau marchnata a hyrwyddo yn Gymraeg a Saesneg fel un o ofynion ariannu prosiectau a'u gweithgareddau. Cafodd grantiau eu hasesu yn erbyn fframwaith asesu'r Gymraeg. Anogir deiliaid grantiau i ddarparu gweithgareddau dwyieithog.

**Cam Gweithredu: 3.11 Adolygu'r targed o gynnydd o 1% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn CnPT ar ôl dadansoddi'r holl ddata perthnasol**

**Cynnydd 2024-2025:**

Ym mis Rhagfyr 2024, bu swyddogion yn cymryd rhan mewn Digwyddiad Arfer Da oedd yn canolbwyntio ar Strategaethau 5-mlynedd i Hyrwyddo'r Gymraeg, a drefnwyd gan Iaith Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Nod y sesiwn hon oedd archwilio esiamplau o arfer oedd yn ymwneud â datblygu a gweithredu Strategaethau 5-mlynedd ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ystod y digwyddiad, cyflwynwyd enghraifft nodedig, gan amlygu sut roedd un sefydliad wedi adolygu eu targedau a rhannu eu methodoleg ar gyfer cyflawni hynny. Mae gwaith yn parhau i adolygu ein targedau er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn CnPT, a rhagwelir y bydd cynnydd cysylltiedig â hynny'n cael ei gyflwyno yn Adroddiad Blynyddol 2025-2026.

**Cam Gweithredu: 3.12 Archwilio sefydlu categori Hyrwyddwr y Gymraeg yng Ngwobrau Tîm CnPT Mewnol y Cyngor**

**Cynnydd 2024-2025:**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Gwobrwyo a Chydnabod, gyda chefnogaeth ein harweinwyr a'n rheolwyr, a fydd yn dod i gysylltiad â phob aelod o'r tîm i sicrhau eu bod yn teimlo gwerthfawrogiad. Bydd hyn yn disodli Gwobrau Tîm CnPT.